

Edrychwch Pwy sy'n Siarad Gweithgareddau Dilydol i Athrawon

Mae Gweithgareddau Dilydol i Athrawon ar gyfer Edrychwch Pwy sy'n Siarad yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 3 o'r Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru 2008 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2013. Nid yw'r gweithgareddau a gyflwynir isod yn ddilyniannol, yn hytrach gall athrawon ddewis ohonynt yn ôl ar angen.

Gweithgaredd Dilydol Edrychwch Pwy sy'n Siarad	Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd	Cysylltiadau â'r Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol ar gyfer Dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru	
		Sgiliau	Ystod
1. Cardiau Canmol	LI(LI)s LI(LI)g LI(LI)c&th LI(D)d&d	<ul style="list-style-type: none"> Gwrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoed ac ymateb yn briodol 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill
2. Jellibean a Surferboi	LI(LI)s LI(LI)g LI(LI)c&th LI(D)d&d LI(Y)ydd LI(D)y&d	<ul style="list-style-type: none"> Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol Cymeryd rhan mewn dadleuon a phleidleiso ar faterion 	<ul style="list-style-type: none"> Dangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach. Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth.
3. Mae'n hawdd i rywun gymryd mantais o rywun arall ar-lein!	LI(LI)s LI(LI)g LI(LI)c&th LI(D)d&d LI(D)y&d	<ul style="list-style-type: none"> Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill Dangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
4. Pwy ydw i?	LI(LI)s LI(LI)g LI(LI)c&th LI(D)d&d	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol 	<ul style="list-style-type: none"> Cael eu cyffwrdd gan anghyfiawnder, ecsoblotio, a gwrthod hawliau dynol Deall nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth
5. Meithrin perthynas amhriodol a'r gyfraith	LI(LI)s LI(LI)g LI(LI)c&th LI(D)d&d	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith Gwrando yn astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol 	<ul style="list-style-type: none"> Dangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach. Deall nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Gweithgaredd 1 - Cardiau Canmol

Argraffwch un set o gardiau canmol 1(a). Darllenwch a chynigwch gerdyn i bob disgybl unigol yn ystod y gweithgaredd hwn. Os oes angen ymadroddion ychwanegol arnoch chi nad ydynt wedi cael eu darparu, defnyddiwch y cardiau gwag.

Esboniwch i'r dosbarth cyfan eich bod yn mynd i ddechrau'r wers trwy ganmol pob disgybl.

Darllenwch bob canmoliaeth yn ei thro. Rhowch ganmoliaeth addas i bob disgybl. Gallech gynhyrchu eich rhai eich hun neu ddefnyddio'r rhai a ddarparwyd. Ymgysylltwch â'r dosbarth

trwy ofyn, 'Ar gyfer pwy mae'r cerdyn hwn yn fwyaf addas?' Bydd hyn yn profi pa mor dda

maen nhw'n adnabod ei gilydd. Pan fyddwch yn enwi'r unigolyn y bwriedir y cerdyn ar ei gyfer, rhowch y cerdyn iddo. Dylai pawb dderbyn canmoliaeth.

Ar ôl i bob disgybl yn y dosbarth dderbyn canmoliaeth, gofynnwch: 'Sut oeddech chi'n teimlo

pan gawsoch chi ganmoliaeth?' Gwrandewch ar yr atebion, a all fod yn amrywiol (hapus/balch/arbennig/embaras ac ati.).

Gofynnwch i'r dosbarth, 'Sut ydych chi'n gwybod bod y canmoliaethau hyn yn rhai go iawn?' Gwrandewch ar resymau neu esboniadau disgyblion.

Efallai bydd y disgyblion yn ateb trwy ddweud bod yr athro'n eu hadnabod yn dda.

Gofynnwch i'r disgyblion, 'Pryd mae rhywun yn debygol o'n canmol ni?'

Gallai atebion gynnwys, 'Pan fyddwn ni'n gwneud rhywbeth da, pan fyddwn ni'n gwneud yn dda, gwneud ymdrech' ac ati.

Yn olaf, gofynnwch i'r dosbarth, 'Pam rydych chi'n credu mod i wedi rhoi canmoliaeth i bob un ohonoch chi heddiw?'

Derbyniwch yr atebion. Crynhowch trwy ddweud bod canmoliaeth yn cael effaith gadarnhaol arnom ni.

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Meddwl/parau/rhannu

Mewn parau, gofynnwch i'r disgyblion a ydyn nhw'n meddwl bod gwahaniaeth rhwng canmoliaeth

a gweniaith. Rhowch adborth o atebion y disgyblion i'r dosbarth cyfan. Y prif wahaniaeth fydd

y cymhelliad y tu ôl i'r sylwadau. Mae canmoliaeth yn golygu gwerthfawrogiad gwirioneddol o rinwedd neu weithred a welir mewn person arall, tra bod gweniaith yn aml yn gallu golygu cymhelliad cudd, e.e. i ddylanwadu ar berson arall am ryw reswm anhysbys neu er budd personol.

Mewn parau, gofynnwch i ddisgyblion ystyried yr holl resymau pam y gallai rhywun eu gwenieithio neu eu canmol, gweler yr awgrymiadau canlynol:

- I wneud i chi deimlo'n dda
- Oherwydd ei fod yn eich hoffi chi
- Oherwydd ei fod am i chi fod yn ffrind iddo
- Mae eisiau rhywbeth gennych chi
- Efallai ei fod am i chi wneud ffafr ag ef.

Derbyniwch adborth gan ddetholiad o barau.

Cyfeiriwch yn ôl at y gweithgaredd 1(a) a'r Cardiau Canmol. Gofynnwch ai gwenieithu oedd hyn? Cadarnhewch fod hon yn ganmoliaeth wirioneddol a roddwyd ar y sail bod eu hathro yn eu

hadnabod yn dda iawn ac mewn sefyllfa dda i nodi eu rhinweddau. Nid yw dieithryn ar-lein ar y

llaw arall mewn sefyllfa i'w hadnabod. Esboniwch fod dieithryn yn rhywun nad ydynt yn ei adnabod all-lein neu yn y byd go iawn.

Yna gofynnwch i'r disgyblion:

"Faint ohonoch chi sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol?"

"Faint ohonoch chi sy'n defnyddio Gwasanaethau Negeseua Gwib?"

"Faint ohonoch chi sydd gan ffrindiau ar-lein nad ydych chi'n eu hadnabod mewn bywyd go iawn?"

Nodwch nifer y dwylo mewn ymateb i bob cwestiwn. Mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol er

mwyn gwybod faint o ddisgyblion sydd â chysylltiad ar-lein â phobl nad ydynt yn eu hadnabod

all-lein neu yn y byd go iawn. Cofiwch y nifer hwn o ddisgyblion, gan y byddwch yn cyfeirio'n ôl

at y datgeliad hwn yn nes ymlaen.

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Gweithgaredd 2 - Jellibean a Surferboi

Defnyddiwch Adnodd PPT 2(a) sleid 1 Jellibean a Surferboi.

Rhannwch y disgyblion yn grwpiau bach. Rhowch gopi o'r trawsgrifiad o sgwrs ar-lein rhwng dau o bobl ifanc. Defnyddiwch Adnodd 2(b) Trawsgrifiad Negeseua Gwib.

Rhowch peth amser i'r disgyblion ddarllen Adnodd 2(b) Trawsgrifiad Negeseua Gwib.

Rhowch un o'r pum Taflenni Ffocws Adnodd 2(c) i bob grŵp. Defnyddiwch sleid 2 trwy gydol rhan gyntaf y weithgaredd hwn.

Rhowch bensil neu bin lliw i bob grŵp bydd yn cyfateb gyda lliw y 'Taflen Waith' cyfatebol naill ai **melyn**, **pinc**, **glas**, **gwyrdd** neu **goch**. nag un grŵp yn gweithio ar thema benodol.

Dewiswch un disgybl i ysgrifennu ar ran y grŵp ac un arall i ddarllen y trawsgrifiad.

Gofynnwch i bob grŵp ddarllen y trawsgrifiad a chanfod a thanlinellu yn eu lliw penodol, unrhyw adegau lle maent yn canfod enghreifftiau o'r canlynol:

Mân Siarad

Defnyddio mân siarad neu gellwair i feithrin cysylltiad cymdeithasol.

Canmoliaeth

Clodfori a chanmol pryd a gwedd, gallu, sgiliau, personoliaeth ac eiddo'r targed.

Gweithgareddau

Cyfnewid gwybodaeth am ddi-ddordebau, hoff a chas bethau, hobiau. Ymddygiad all-lein ac ar-lein. Ymddygiad rhywiol ac ymddygiad nad yw'n rhywiol. Yn y gorffennol, presennol, dyfodol neu ymddygiad/gweithgareddau cynlluniedig.

Cydberthnasau

Trafodaeth am deimladau, gan chwilio am wybodaeth am gydberthnasau personol y targed gyda'r bobl bwysig yn ei fywyd, e.e. teulu/cariad/ffrindiau.


Cyfnewid gwybodaeth

Cyfnewid gwybodaeth bersonol. e.e. lleoliad, ysgol a fynychir, cyfeiriad cartref, oedran, enw go iawn, rhif/rhifau ffôn, lluniau, fideos, lleoliad GPS.

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Rhowch 10 munud i'r weithgaredd cyn bod pob grŵp yn rhoi ei atebion i'r dosbarth.

Tra bod y disgyblion yn adrodd yn ôl, gellid defnyddio Adnodd PPT 2(a) sleidiau 3-7 er mwyn dangos thema Taflen Waith pob grŵp yn ei dro.



Gall athrawon ddefnyddio Adnodd 2(d) Jellibean a Surferboi (Canllaw Athro) am arweiniad.

Crynowch gyda'r dosbarth fod Surferboi yn darganfod y canlynol yn gyflym iawn ar ôl cyfathrebu â Jellibean ar-lein:

- Mae'n cael ei sylw
- Mae'n darganfod ei hoedran
- Pam mae hi ar y cyfryngau cymdeithasol (mae hi'n teimlo'n ddiflas)
- Nid oes ganddi unrhyw ffrindiau oherwydd ei bod wedi symud
- Ble mae hi'n byw
- O ble mae hi wedi symud
- Nid yw hi'n gallu nofio
- Mae ganddyn nhw ffrind cyffredin
- Mae hi'n hiraethu am ei chartref
- Mae hi'n byw ger bae Oxwich
- Amy yw ei henw
- Mae hi'n 13 oed
- Nid oes ganddi gariad
- Mae ganddi frawd sy'n mynd ar ei nerfau
- Mae hi a'i brawd yn mynd i Ysgol Bishopston
- Mae hi'n hoffi cacennau Rocky Road
- Mae'n llwyddo i'w chael hi i anfon llun ohoni ato gan ddangos llinell lliw haul o bosibl
- Mae'n ei pherswadio i ystyried cwrdd ag ef

Yn defnyddio Adnodd PPT 2(a) sleid 8, dangoswch sut mae llun proffil ar-lein Jellibean yn edrych. Yna dangoswch sut mae llun proffil Surferboi yn edrych ar sleid 9.



Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Meddwl/parau/rhannu - Gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw'n credu dylai Jellibean ei wneud nesaf?

Crynowch ymatebion y disgyblion i'r dosbarth cyfan.

Nesaf, gofynnwch i'r disgyblion a fyddent yn hoffi gweld sut mae Surferboi yn edrych go iawn?

Dangoswch Adnodd PPT 2(a) sleid 10, sef Surferboi yn y byd go iawn.

Gofynnwch i'r disgyblion am eu hymateb i'r sgwrs ar-lein.

Gofynnwch i'r disgyblion, 'Sut ydych chi'n gwybod bod rhywun rydych ond yn ei adnabod ar-lein, yn dweud y gwir ynglŷn â phwy ydyn nhw?'

Gwrandewch ar ymateb y disgyblion.

Efallai y byddant yn awgrymu:

- Gofyn i'r unigolyn maen nhw'n siarad ag ef ddefnyddio Skype neu FaceTime i siarad â nhw.
- Gwirio gyda'r ffrind cyffredin i weld a yw'n adnabod yr unigolyn hwn ai peidio.
- Efallai bydd rhywun sy'n dweud celwydd yn gwrthod dangos ei hun ar Skype trwy ddefnyddio esgus credadwy, e.e. Mae'r camera wedi torri ar fy ngliniadur; nid oes ap Facetime ar fy ffôn ac yn y blaen.

Y prif bwynt i'w dysgu yw oni bai eich bod yn adnabod rhywun yn y byd all-lein go iawn, allwch

chi **byth â bod yn siŵr** pwy yw rhywun ar-lein mewn gwirionedd.

Yn defnyddio Adnodd PPT 2(a) dangoswch sleid 12, diffiniad o feithrin perthynas amhriodol

ar-lein. Angen sicrhau bod y plant yn deall y term.

Gofynnwch i'r disgyblion, 'Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i Jellibean pe byddech chi'n ffrind iddyn nhw?'

Gallai ymatebion posibl gynnwys:

- Atal
- Defnyddio'r botwm CEOP Hysbysu am Gamdriniaeth.
- Cadw'r sgysiau
- Siarad ag oedolyn maen nhw'n ymddiried ynddo.

Adnodd 2(e) Cardiau Strategaethau Naw Diemwnt

Argraffwch un set o Adnodd 2(e) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

restru'r datganiadau yn ôl yr hyn maen nhw'n credu yw'r strategaeth fwyaf pwysig neu effeithiol ar gyfer lleihau perygl ar-lein i'r hyn maen nhw'n credu yw'r lleiaf pwysig neu effeithiol. Defnyddiwch Adnodd PPT 2(a) sleid 13 i ddangos y cyfarwyddyd.

Gofynnwch i bob grŵp am adborth i'r dosbarth am y tri dewis uchaf ar eu rhestr a'r rhesymau

dros y dewis hwn.

Codwch ymwybyddiaeth disgyblion o'r botwm CEOP ar gyfer hysbysu am unrhyw un sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus neu'n bryderus ar-lein. Defnyddiwch Adnodd PPT 2(a) sleid 14.

Yn defnyddio Adnodd PPT 2(a) sleid 15 fel rhan o'r adborth, gofynnwch i'r disgyblion ateb y datganiadau canlynol:

- Os yw rhywun rydych yn siarad â nhw'n gwneud i chi deimlo'n anghyffyrddus, dylech chi...
- Os yw rhywun yn anfon llun neu neges amhriodol atoch chi, dylech chi...
- Os yw rhywun rydych chi ond yn ei adnabod ar-lein yn gofyn i chi gwrdd ag ef, dylech chi...
- Os yw rhywun yn dweud rhywbeth amhriodol pan rydych yn chwarae gemau, dylech chi...
- Os yw rhywun yn honni ei fod yn ffrind i ffrind ac mae eisiau i chi ei dderbyn yn ffrind, dylech chi...
- Os yw rhywun rydych chi ond yn ei adnabod ar-lein eisiau galwad Skype gyda chi, dylech chi...

Atgoffwch y disgyblion faint ohonynt oedd wedi datgelu'n gynharach bod ganddynt ffrindiau

ar-lein nad ydynt yn eu hadnabod yn y byd go iawn. Gofynnwch, a allai unrhyw rai o'r rhain fod

fel Surferboi? Cynghorwch y disgyblion na ddylent gael ffrindiau ar-lein os nad ydyn nhw'n eu hadnabod yn y byd go-iawn ac i sicrhau bod eu gosodiadau preifatrwydd ar 'ffrindiau' yn unig.

Yn olaf, gofynnwch i'r disgyblion ddweud wrthynt chi beth yw'r peth pwysicaf maen nhw wedi

dysgu heddiw. Gallant ysgrifennu hyn ar nodiadau gludiog. Gallwch dynnu lluniau o'r ymatebion

fel tystiolaeth o'r hyn maen nhw wedi dysgu ac ystyriwch trydar y lluniau at sylw @Schoolbeat

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Gweithgaredd 3. - Mae'n hawdd i rywun gymryd mantais o rywun arall ar-lein

Paratowch ddigon o setiau o Adnodd 3(a) Cardiau Cymryd Mantais/Ddim yn Cymryd Mantais Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Rhwch un set o gardiau i bob grŵp.

Gofynnwch i'r disgyblion ddiolli'r cardiau yn ddau grŵp dan y teitl, 'Ddim yn cymryd mantais' a 'Cymryd mantais'. Gellid dosbarthu'r cardiau fel â ganlyn.

Rhywun yn cymryd mantais ohonoch chi

Rhywun yn gadael i ti gymryd y bai am rywbeth na wnest ti

Rhywun yn gofyn i ti wneud rywbeth sy'n gwneud i ti deimlo'n anghyfforddus

Rhywun yn gofyn i ti gymryd hun-lun noeth

Rhywun yn postio rywbeth dwl ar y cyfryngau cymdeithasol o dy gyfrif di, pan oeddet ti wedi gadael dy ffôn heb ei gloi

Rhywun yn gofyn i ti gadw cyfrinach ddrwg

Rhywun yn gofyn i gael copïo dy waith cartref

Rhywun yn postio llun ohonot ti ar-lein sy'n achosi embaras i ti

Rhywun yn dweud jôc / gwneud hwyl am dy ben

Rhywun yn dwyn dy syniad ar gyfer aseiniad

Rhywun yn benthycu arian gen ti na fydd yn ei dalu'n ôl i ti

Rhywun yn benthycu dy ffôn ac yn defnyddio dy gredyd i gyd

Rhywun yn bygwth datgelu cyfrinach amdanat ti, os nad wyt ti'n rhoi rywbeth iddo

Rhywun yn esgus bod yn ffrind i ti er mwyn gallu dy ddefnyddio di am ryw reswm

Rhywun yn benthycu dy ddillad ac yn eu difrodi nhw

Ddim yn cymryd mantais:

Rhywun yn anfon llun doniol atat ti fel jôc

Rhywun yn dy amddiffyn di

Rhywun yn anfon neges pen-blwydd hapus ar-lein atat ti

Rhywun yn cymryd hun-lun gyda thi

Rhywun yn gadael emoji 🥰 ar dy Instagram

Rhywun yn rhoi benthycu ei ffôn i ti er mwyn i ti ffonio dy fam

Rhywun yn trefnu syrpreis ar dy gyfer di

Rhywun yn hoffi dy broffil ar-lein

Rhywun yn cysylltu â thi ar Skype i dy helpu gyda gwaith cartref

Rhywun yn rhoi benthycu arian i ti brynu cinio

Rhywun yn dy gynnwys mewn sgwrs grŵp

Rhywun yn gofyn i unigolyn bostio llun ohonot ti ar-lein


Rhywun yn benthycu arian gen ti y mae'n ei dalu'n ôl i ti

Rhywun yn rhannu losin gyda thi

Rhywun yn gofyn i ti gadw cyfrinach dda

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Nesaf, yn defnyddio bwrdd gwyn, rhwch y cardiau 'Ddim yn cymryd mantais' a 'Cymryd mantais' ar y naill ochr â'r llall o'r bwrdd gwyn a thynnwch linell rhyngddynt.



Gofynnwch i'r disgyblion mewn grwpiau ddewis cerdyn o'u setiau a gosod y cerdyn lle maen nhw'n credu y mae'n gorwedd orau ar y llinell. Mae hyn yn caniatáu gwahaniaethu rhwng datganiadau maen nhw'n meddwl efallai sy'n achosi mwy o niwed (cymryd mantais) a phethau efallai nad ydynt yn eu gweld fel rhywbeth sy'n achosi cymaint o niwed (neu ddim yn cymryd mantais).

Wrth iddynt wneud hyn, gofynnwch i bob disgybl esbonio pam y gosododd y cerdyn yn y safle ar y llinell. Yna gofynnwch am farn y disgyblion eraill yn y dosbarth. A ydyn nhw'n cytuno neu anghytuno? Pam?

Ffordd arall o wneud y gweithgaredd hwn fyddai cael set ychwanegol o gardiau datganiad a dewis cardiau penodol yr hoffech iddyn nhw eu hystyried. Gofynnwch i'r disgyblion wirfoddoli i roi'r cerdyn rhywle ar y llinell ddi-dor.

Gallai'r cardiau canlynol arwain at drafodaethau ynghylch problemau difrifol cael rhywun yn cymryd mantais ohonoch chi.

- Rhywun yn gofyn i ti wneud rhywbeth sy'n gwneud i ti deimlo'n anghyfforddus
- Rhywun yn gofyn i ti anfon hun-lun noeth
- Rhywun yn gofyn i ti gadw cyfrinach ddrwg
- Rhywun yn postio llun ohonot ti ar-lein sy'n achosi embaras i ti
- Rhywun yn bygwth datgelu cyfrinach amdanat ti, os nad wyt ti'n rhoi rhywbeth iddo
- Rhywun yn esgus bod yn ffrind i ti er mwyn gallu dy ddefnyddio am ryw reswm

Gellid defnyddio'r gweithgaredd hwn fel gwers ar ei phen ei hun.

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Gweithgaredd 4 - Pwy ydw i?

Yn defnyddio Adnodd PPT 4(a), dechreuwch gyda'r sleid pennawd.

Bydd y dilyniant canlynol o gwestiynau ac atebion yn helpu disgyblion i ystyried a allant fod yn siŵr eu bod yn gwybod gyda phwy maen nhw'n siarad ar-lein. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan nad ydynt yn adnabod y ffrind ar-lein mewn bywyd go iawn.

Gofynnwch i'r disgyblion, 'Sut ydych chi'n gwybod pwy ydw i?'

Dylai atebion ddangos bod y disgyblion **yn gallu eich gweld chi** a'u bod yn eich adnabod fel eu hathro ac felly'n gwybod sut rydych yn edrych. Maen nhw'n gwybod eich bod yn oedolyn.

Efallai eich bod yn gwisgo bathodyn adnabod sy'n cadarnhau eich bod yn athro yn yr ysgol.

Yna gofynnwch i'r disgyblion, 'Pe na baech chi'n gallu fy ngweld i? A allech chi adnabod fy llais?' Byddai rhai disgyblion yn dweud y byddent yn eich adnabod yn seiliedig ar eich llais.

Nawr gofynnwch 'Beth petawn ni'n anfon e-bost atoch chi? A fydddech chi'n dal yn siŵr mai fisydd yna?'

Y tro hwn byddai'r disgyblion yn llai sicr, efallai eu bod yn adnabod cyfeiriad e-bost yr ysgol.

'Beth petawn i'n cysylltu â chi trwy ddefnyddio cyfrif e-bost personol?'

Ni fyddai'r disgyblion yn gwybod i sicrwydd erbyn hyn.

Gofynnwch i'r disgyblion, 'Sut rydym ni'n dod i adnabod dieithryn llwyr yn y byd all-lein?' Gallai atebion gynnwys:

- Cael eich cyflwyno gan rywun arall sydd efallai'n adnabod yr unigolyn
- Mynd yn uniongyrchol at y person a siarad ag ef
- Darganfod rhywbeth amdano gan bobl sy'n ei adnabod yn bersonol.

A oes gwahaniaeth os yw'r person yn ddieithryn ar-lein? Os felly, beth yw'r gwahaniaethau?

Gall disgyblion awgrymu atebion megis:

Os yw'r person yn ddieithryn ar-lein allwn ni ddim gwybod pwy ydyw go iawn. Mae'n llawer anoddach bod yn sicr pwy yw person ar-lein.

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Yn defnyddio Adnodd PPT 4(a) cliciwch i ddatgelu sleid 2. Gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw'n credu yw'r gair?

Cliciwch i ddatgelu, dieithryn.

Mae'n bwynt dysgu pwysig bod disgyblion yn gwybod bod ffrindiau arlein nad ydynt yn eu hadnabod yn y byd go iawn ddweud celwydd. Dieithriaid ydynt mewn gwirionedd.

Gweithgaredd 4(b) Camau Meithrin Perthynas Amhriodol

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar a rhowch gopi o Adnodd 4(b) Camau Meithrin Perthynas Amhriodol (taflen A4 yw hon ond gellir ei gwneud yn fwy ar A3) iddynt.

Dangoswch, Adnodd PPT 4(a) sleid 8, sydd â chyfarwyddiadau ar gyfer y dasg.

Rhowch bum munud i'r disgyblion gwblhau'r dasg.

Rhowch adborth o'r atebion i'r dosbarth cyfan.

Yna gofynnwch i'r disgyblion sut gallai'r broses hon o feithrin perthynas amhriodol ddigwydd yn y byd all-lein, go iawn? Bydd disgyblion yn defnyddio'r un Adnodd 4(b) Camau Meithrin

Perthynas Amhriodol ac yn ysgrifennu eu hatebion ar ochr dde'r dudalen.

Cliciwch ar Adnodd PPT 4(a) sleid 9, sydd â chyfarwyddiadau ar gyfer y dasg.

Y tro hwn, o'r dechrau mae'r person ifanc yn gwybod beth yw hunaniaeth gorfforol yr oedolyn.

Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn adnabod y gall oedolyn ddewis person ifanc sy'n fwy bregus/agored i niwed nac un arall. Bydd angen dadbacio hyn. Gwiriwch wybodaeth y disgyblionam y term 'bregus'/'agored i niwed'. Byddai baban yn cael ei ystyried i fod yn fwy agored nac ardegyrn i anafiadau yn y cartref, oherwydd nad yw babanod yn deall peryglon yn y tŷ fel grisiau neu socedau trydan.

Enghraifft dda arall o sut gall disgybl ddod yn fwy bregus yw esbonio y gellir ystyried person ifanc yn fwy bregus os yw'n dewis chwarae triwant o'r ysgol a threulio amser rhywle arall yn y gymuned, oherwydd byddai y tu allan i ddiogelwch yr ysgol.

Y tro hwn esboniwch y gallai camau meithrin perthynas amhriodol edrych fel hyn:

1. **Dod yn ffrind** - Dewis person ifanc i'w dargedu a all fod yn haws na'r rhan fwyaf i'w dargedu.
2. **Cael y person ifanc i ymddiried ynddo** - Cynnig lle i'r person ifanc dreulio'i amser.
3. **Datblygu cyfeillgarwch** - Cyfathrebu trwy wrando ar, siarad â, chwarae gemau neu dreulio amser gyda'r person ifanc. Cynnig arhegion i'r person ifanc fel sigarêts, alcohol, sylweddau eraill neu arian.

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

4. **Ynysu** - Gwneud i'r person ifanc deimlo'n arbennig ac yn hapus i dreulio amser gyda'r oedolyn. Treulio amser ar ei ben ei hun gyda'r oedolyn, cadw pethau'n gyfrinachol bob amser.
5. **Rhywioli'r berthynas** - Disgwyl i'r person ifanc dalu yn ôl am y sylw a'r anrhegion ac ati mewn ffordd rywiol. Nawr mae cam-fanteisio'n rhywiol yn digwydd a dyma yw bwriad yr holl gamau blaenorol. Gelwir hyn yn aml yn 'cam-fanteisio'n rhywiol ar blant'.
6. **Cadw rheolaeth** - Mae'r oedolyn yn defnyddio bygythiadau o niwed neu ddatgeliad i reoli'r person ifanc a'i atal rhag dweud unrhyw beth.

Gofynnwch i'r disgyblion pa ddull yw'r hawsaf i'r sawl sy'n meithrin perthynas amhriodol, ar-lein neu all-lein?

Gwybodaeth i athrawon:

Mae'n haws twyllo person ifanc ar-lein gan fod hunaniaeth yn cael ei chuddio. Mae hyn yn golygu y gallai person ifanc feddwl ei fod yn cael cyfeillgarwch ar-lein gyda rhywun sy'n agos at ei oed, ond mewn gwirionedd gall fod yn oedolyn. Mae'r ddau fath o feithrin perthynas amhriodol yn golygu chwilio am berson bregus i gam-fanteisio arno. Mae person bregus yn rhywun sydd mewn mwy o berygl o gael rhywun yn cymryd mantais ohono mewn rhyw ffordd. Mae pob plentyn yn fregus gan eu bod yn blant.

Gofynnwch i'r disgyblion 'Allwch chi nodi rhesymau pam efallai y byddai person ifanc fod yn fwy agored i niwed pe byddai wedi chwarae triwant er enghraifft?'

Defnyddiwch Adnodd PPT 4(a) sleid 10. Mewn grwpiau, yn defnyddio darnau mawr o bapur, gofynnwch i ddisgyblion greu map meddwl o'r rhesymau pam y gallai chwarae triwant wneud person ifanc yn fwy agored i niwed.

Dyma rai awgrymiadau:

- Y tu allan i'r ysgol nid ydych yn gwybod bob amser pwy sy'n oedolyn diogel.
- Gallai fod yn haws i fwlïod, sydd hefyd yn chwarae triwant, eich targedu.
- Gallech chi fod mewn sefyllfa beryglus oherwydd eich bod yn treulio amser gyda'r bobl anghywir.
- Gallai disgyblion hŷn sydd ddim yn yr ysgol chwaith gymryd mantais ohonoch chi.
- Gallai rhywun gymryd mantais ohonoch chi trwy wneud i chi wneud rhywbeth anghyfreithlon.
- Gallai rhywun ddwyn pwysau arnoch chi i geisio sylwedd niweidiol, gan gynnwys alcohol.
- Bydd oedolion sydd â chymhellion drwg tuag at blant yn ei chael yn haws i ddod yn ffrindiau â pherson ifanc a chymryd mantais ohono.

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Cliciwch sleid 10 i ddatgelu pedwar perygl sylweddol i bobl ifanc sy'n chwarae triwant.

Pwysleisiwch i'r disgyblion fod yr ysgol yn lle diogel i bobl ifanc oherwydd:

- Yn yr ysgol mae gennych oedolion sy'n eich amddiffyn a'ch diogelu.
- Yn yr ysgol os oes rhywbeth yn mynd o'i le mae oedolion diogel yno i'ch helpu chi.

Gweithgaredd 4(c) - Rhoi'r Cyfan at ei Gilydd

Er mwyn cadarnhau'r dysgu, rhowch gopi o Adnodd 4(c) Mat Bwrdd Rhoi'r Cyfan at ei Gilydd i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion lenwi'r llefydd gwag ar y mat bwrdd trwy ateb y cwestiynau. Dewiswch rywun o bob grŵp i ysgrifennu a rhywun i roi adborth am unrhyw atebion.

Defnyddiwch Adnodd PPT 4(a) sleid 11 a gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r dasg. Gwiriwch eu dealltwriaeth gan wrando ar ei ymatebion.

Gweithgaredd 4(d) Triongl Rhybudd

Dosbarthwch Adnodd 4(d) Triongl Rhybudd i bob disgybl a thaflen sy'n cynghori pobl ifanc sut i gadw'n ddiogel arlein.

Dangoswch Adnodd PPT 4(a) sleid 13 i'w atgoffa am y prif gyngor ynglŷn â gwybodaeth bersonol ar-lein.

Dangoswch Adnodd PPT 4(d) sleid 14 ac esboniwch beth gall disgyblion ei wneud os yw rhywun ar-lein wedi gwneud iddynt deimlo'n bryderus neu mewn perygl.

Gorffennwch drwy ofyn i'r disgyblion ddweud un peth pwysig wrthyich chi maen nhw wedi ei ddysgu yn ystod y sesiwn. Cliciwch sleid 15.

Gweithgaredd 5 - Meithrin Perthynas Amhriodol a'r Gyfraith.

Dangoswch Adnodd PPT 5(a) Y gyfraith a'r drosedd o feithrin perthynas amhriodol.

Esboniwch i'r disgyblion eich bod yn mynd i fod yn siarad am y pwnc sensitif o feithrin perthynas amhriodol. Gofynnwch i'r disgyblion a ydyn nhw'n gwybod beth yw meithrin perthynas amhriodol? Datgelwch y diffiniad o beth yw meithrin perthynas amhriodol. Dangoswch Adnodd PPT 5(a) sleid 3.

Esboniwch fod cyfreithiau sy'n amddiffyn plant a phobl ifanc rhag yr ymddygiad hwn a rhag niwed.

Cliciwch Adnodd PPT 5(a) sleid 4 sy'n dangos y cyfreithiau. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau

bach. Rhowch Adnodd 5(b) i bob grŵp, Senarios Pwy sydd mewn Perygl?

Rhowch 10-15 munud i'r disgyblion ddarllen a thrafod y saith senario.

Nodiadau Athrawon - CA3 Edrychwch Pwy Sy'n Siarad

Yn defnyddio Adnodd PPT 5(a) dangoswch sleidiau 6-12 un ar y tro. Gofynnwch i un grŵp ar y tro, a wnaethon nhw ganfod unrhyw bobl ifanc mewn perygl o niwed ac os felly pam maen nhw mewn perygl? Os oes gan unrhyw grŵp syniadau ychwanegol neu os oedden nhw'n anghytuno, gofynnwch iddyn nhw esbonio. Dilynwch y dull hwn gyda phob sleid a rhowch adborth i'r dosbarth cyfan.

Yna, gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw'n credu y gallai'r bobl ifanc a ganfuwyd i fod mewn perygl ei wneud i leihau'r perygl hwnnw. Cyfeiriwch at awgrymiadau'r athro yn

Adnodd 5(c) 'Pwy sydd mewn perygl?' Taflen Senarios - Awgrymiadau Athrawon.

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu hawgrymiadau ar gyfer lleihau perygl ar nodiadau gludiog. Yn dechrau gyda Adnodd PPT 5(a) sleid 6, gofynnwch i bob grŵp nodi ei gyngor gorau ar gyfer lleihau perygl i bob un o'r bobl ifanc yn y senarios. Ar gyfer pob delwedd, bydd disgyblion yn gludo eu hawgrymiadau i'r ddelwedd sy'n cael ei dangos.

Wrth i bob sleid symud ymlaen gall y disgyblion ychwanegu unrhyw gyngor newydd a fyddai'n helpu i gadw'r person ifanc yn ddiogel. Yn y pen draw bydd y bwrdd gwyn yn dangos nifer o awgrymiadau gan y disgyblion.

Gofynnwch i'r disgyblion a wnaethant adnabod unrhyw risgiau y gallan nhw fod yn eu cymryd sy'n debyg i'r bobl ifanc yn y senarios. Pwysleisiwch ei bod yn bwysig eu bod yn lleihau'r risgiau hynny. Dangoswch Adnodd PPT 5(a) sleidiau 14 a 15 i ddangos gwybodaeth am sut i gadw'n ddiogel neu beth gallant ei wneud os ydynt yn teimlo mewn perygl ar-lein.

Gofynnwch i'r disgyblion 'Ysgrifennwch un peth rydych yn mynd i'w wneud yn wahanol o ganlyniad i'r wers heddiw'. Dangoswch Adnodd PPT 5(a) sleid 16 a gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu hatebion ar nodiadau gludiog.

Gellir arddangos y nodiadau gludiog i'r holl ddisgyblion eu darllen. Gellir ystyried trydar y nodiadau gludog at sylw @Schoolbeat.